AMGUEDDFA CYMRU

# RUFEINIG Meddygaeth

PLANHIGION FEL MEDDYGINIAETH YNG NGHYMRU OES Y RHUFEINIAID

# ROEDD Y RHUFEINIAID YN DEFNYDDIO LLAWER O BLANHIGION FEL MEDDYGINIAETH BOB DYDD.

Rydyn ni'n tyfu rhai o'r planhigion yng ngardd Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru.

Un ffordd o baratoi'r feddyginiaeth oedd i gymysgu'r holl gynhwysion mewn morter (powlen) a'u malu â phestl (pêl ddi-fin neu glwb)

Dyma morter a phestl Rhufeinig go iawn o'n casgliad



Roedd y Rhufeiniaid hefyd yn defnyddio paled i falu cynhwysion yn bowdr.

Byddai'r paled siâl hwn o'n casgliad hefyd yn cael ei ddefnyddio fel caead llithro ar flwch cyffuriau.





# CROESO I'R ARDD RUFEINIG!






# TAFOD YR YCH

*Borago officinalis*

Câi tafod yr ych ei gymysgu gyda gwin a'i ddefnyddio i drin iselder a chalon wan yng nghyfnod y Rhufeiniaid.

Credir bod yr enw Saesneg 'borage' yn dod o'r gair Celtaidd 'borrach' sy'n golygu 'gwroldeb balch'.






# RUW

*Ruta graveolens*

Yn ôl Pliny, roedd engrafwyr, paentwyr a cherflunwyr yn bwyta ruw i wella'u golwg.



Efallai bod hwn wedi'i ddefnyddio gan bwy bynnag wnaeth engrafu'r lluniau ar y cerrig gwerthfawr.






# PERSLI

*Petroselinum crispum*

Roedd y Rhufeiniaid yn credu bod sudd gwreiddyn persli, wedi’i gymysgu â gwin, yn helpu i leddfu poen cefn. Roeddent hefyd yn meddwl bod ei roi yn eich clust yn gwella eich clyw.







# RHOSYN-Y-MYNYDD GWYLLT

*Paeonia officinalis*

Cael ei ddefnyddio i leihau poen genedigaeth a thrin poenau'r misglwyf, clwyf melyn a hunllefau. Peidiwch â thrio hyn – mae'n blanhigyn hynod wenwynig. Wedi'i enwi ar ôl y meddyg Groegaidd Paeon, ond cafodd ei gyflwyno i Brydain gan y Rhufeiniaid.







# DAIL Y GWENYN

*Melissa officinalis*


Roedd y Rhufeiniaid yn gwybod bod y planhigyn hwn yn denu gwenyn ac felly'n dda ar gyfer gardd lewyrchus. Roedd hefyd yn cael ei ddefnyddio fel meddyginiaeth, i greu diodydd egni a thrin dolur annwyd, pigiad sgorpion a phryfed. Defnyddiol tu hwnt!



# FALERIAN

*Valeriana officinalis*

Taenir petalau ar gynfasau gwely, ac mae’r arogl o gymorth i syrthio i drwmgwsg.






# SAETS

*Salvia officinalis*

O'i socian mewn gwin, roedd y Rhufeiniaid yn credu y gallai saets leddfu cosi mewn mannau annifyr. Planhigyn defnyddiol gan ei fod hefyd yn helpu i stopio clwyf rhag gwaedu ac yn lleddfu pigiad cath fôr ddu.






# CYFARDWF

*Symphytum*

Câi cyfardwf ei ddefnyddio gan feddygon y fyddin Rufeinig i drin clwyfau ac esgyrn wedi torri. Byddai'r Rhufeiniaid yn gwneud past o'r gwreiddiau, gyda phestl a morter fel yr un isod, er mwyn glynu cnawd wedi rhwygo yn ôl at ei gilydd.






# TEIM

*Thymus vulgaris*

Cai teim ei ddefnyddio i drin asthma ac i ryddhau tagfa yn y llwnc a’r stumog. Roedd yn boblogaidd gan bobl fyddai’n mynd i bartïon; byddent yn gwisgo coronau teim fyddai’n cael eu llosgi ar allorau i blesio’r duwiau.



# EISIAU DARGANFOD MWY O FEDDYGAETH RUFEINIG?

Ewch am dro o gwmpas yr ardd yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru gan ddefnyddio ein taith 360




Mae llawer o driniaethau diddorol (ac erchyll!) yn ein eLyfr Triniaeth a Meddyginiaeth



AMGUEDDFA CYMRU